Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Crynodeb Gwirio Ansawdd Ystafelloedd Ymgynghori Cyncoed: Dyddiad y gweithgarwch: 14 Hydref 2021

Dyddiad cyhoeddi: 18 Tachwedd 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ


Neu drwy:


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: agic@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk


ISBN Digidol 978-1-80391-329-2

© Hawlfraint y Goron 2021

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ein dull gweithredu

Ymgymerodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) â gwiriad ansawdd o bell o Ystafelloedd Ymgynghori Cyncoed fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae Ystafelloedd Ymgynghori Cyncoed yn darparu gwasanaeth ymgynghori i gleifion allanol i'w ddefnyddio gan ymgynghorwyr a gweithwyr gofal iechyd eraill.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn ffurfio rhan o ddull newydd wedi'i deilwra ar gyfer gwaith sicrwydd ac maent yn un o nifer o ffyrdd y mae'n archwilio sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Deddf Safonau Gofal 2000 a Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, ac, wrth wneud hynny, mae hefyd yn ystyried y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru (y Safonau Gofynnol Cenedlaethol). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygu a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Ciplun yw gwiriadau ansawdd ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle'n gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn arbennig ynghylch staffio), a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn archwilio trefniadau sydd ar waith i ddiogelu staff a chleifion rhag COVID-19, gan ein galluogi i ddarparu cyngor gwella cyflym a chefnogol ar weithrediad diogel gwasanaethau yn ystod y pandemig. Gallwch weld rhagor o wybodaeth am ein dull o gynnal gwaith sicrwydd ac arolygiadau yma.

Gwnaethom siarad â'r rheolwr cofrestredig ar 14 Hydref 2021, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am ei wasanaeth. Gwnaethom ddefnyddio'r llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Pa newidiadau sydd wedi cael eu gweithredu yng ngoleuni COVID-19 i sicrhau bod safonau atal a rheoli heintiau yn cael eu cynnal?
- Sut mae'r clinig yn sicrhau y gall yr holl gleifion (gan gynnwys grwpiau agored i niwed / mewn perygl) gyrchu gwasanaethau mewn modd priodol a diogel?
- Sut mae'r clinig yn diwallu anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg wrth gael mynediad i wasanaethau gofal iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut mae'r clinig a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu wedi addasu yn ystod y cyfnod COVID-19 hwn?
- Sut mae'r clinig yn sicrhau bod cydraddoldeb a dull sy'n seiliedig ar hawliau'n cael eu hymgorffori ar draws y gwasanaeth?

## Yr amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19 a sut mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal i'w gadw mor ddiogel â phosib i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Asesiad risg o'r amgylchedd
- Asesiad risg COVID-19
- Asesiad risg iechyd a diogelwch / diogelwch tân

Gwnaethom hefyd gwestiynu cynrychiolydd y gwasanaeth ar y newidiadau y mae wedi'u gwneud i sicrhau bod cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth yn unol â'u hanghenion.

**Derbyniwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwnaethom ganfod bod y gwasanaeth wedi cynnal asesiadau risg perthnasol ac wedi diweddaru polisïau a gweithdrefnau perthnasol i fodloni'r gofynion ychwanegol sy'n deillio o bandemig COVID-19.

Clywsom, ar ddechrau'r pandemig COVID-19, fod amgylchedd y clinig wedi cael ei asesu i helpu a gwella'r gwaith o reoli heintiau. Cawsom wybod bod rhai ardaloedd yn y clinig wedi cael eu hailwampio a bod y newidiadau canlynol wedi cael eu gwneud:

- Gweithredwyd gweithdrefnau desgiau clir gydag eitemau diangen yn cael eu symud
- Roedd desgiau wedi cael eu symud i alluogi cadw pellter cymdeithasol
- Tynnwyd teils carped a'u disodli â deunydd llawr y mae modd ei olchi mewn ardaloedd cymunol
- Disodlwyd cadeiriau defnydd â chadeiriau plastig y mae modd eu golchi
- Codwyd arwyddion cadw pellter cymdeithasol
- Rhoddwyd peiriannau dosbarthu hylif diheintio dwylo mewn lleoliadau amrywiol o amgylch y clinig
- Gosodwyd peiriant intercom wrth y brif fynedfa
- Gosodwyd sgrin ddiogelu wrth ddesg y dderbynfa

Er mwyn diogelu staff a chleifion yn y clinig, dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y drws blaen ar glo ar bob adeg er mwyn atal aelodau'r cyhoedd rhag dod i'r adeilad ar eu pen eu hun a heb apwyntiad. Cawsom wybod bod hysbysiadau ac arwyddion priodol yn cael eu harddangos yn y clinig.

Mae unrhyw gleifion sydd angen ymweld â'r clinig yn dod drwy wahoddiad ac apwyntiau a drefnwyd ymlaen llaw yn unig. Cawsom wybod bod staff sy'n gadael cleifion i mewn i'r adeilad yn gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol, a bod yr holl gleifion sy'n gorfod derbyn triniaeth yn cael eu sgrinio am symptomau COVID-19.

Cawsom wybod bod yr holl staff wedi derbyn asesiad risg COVID-19 er mwyn asesu risgiau personol parhau i ymgymryd â'u rôl yn ystod pandemig COVID-19, ac i dynnu sylw at unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol i arferion gwaith.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y cyffuriau ac offer argyfwng yn cael eu storio'n ddiogel ac mewn lleoliad sy'n hawdd cael mynediad ato yn achos argyfwng meddygol (claf yn llewygu) yn y clinig. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod system ar waith i wirio'r offer a chyffuriau argyfwng yn fisol er mwyn sicrhau eu bod o fewn eu dyddiad a'u bod yn barod i gael eu defnyddio. Fodd bynnag, yn unol â'r safonau a nodir gan y Cyngor Dadebru (DU), rydym yn argymell bod y cyffuriau argyfwng yn cael eu gwirio'n wythnosol. Gwnaethom hefyd roi cyngor i'r clinig wirio'r silindr ocsigen a'r diffibriliwr yn ddyddiol.

Dylai'r rheolwr cofrestredig drefnu i'r offer a chyffuriau argyfwng gael eu gwirio'n wythnosol.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod mwyafrif y taflenni a'r arwyddion yn y clinig yn ddwyieithog. Cawsom wybod bod pedwar aelod o staff yn siaradwyr Cymraeg rhugl, sy'n helpu i ddiwallu anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg sy'n dymuno cyfathrebu yn yr iaith o'u dewis. Cawsom hefyd wybod bod gan y clinig fynediad i gyfieithydd. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad yw'r gwasanaethau hyn yn cael eu hyrwyddo.

Dylai'r rheolwr cofrestredig drefnu i wasanaethau cyfieithu gael eu hyrwyddo.

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, a pha mor dda mae'n rheoli'r risg o heintiau er mwyn helpu i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Llawlyfr staff: polisïau a gweithdrefnau

- Polisïau rheoli heintiau cyffredinol a pholisïau sy'n benodol i COVID-19
- Polisi ymolchi dwylo
- Polisi glanhau
- Polisi gwastraff clinigol
- Amserlenni glanhau
- Archwiliadau glanhau

**Derbyniwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwelsom fod gan y clinig lawlyfr staff penodol ar waith sy'n cynnwys polisïau a gweithdrefnau perthnasol, megis atal a rheoli heintiau, golchi dwylo, glanhau dwys, a gwaredu gwastraff clinigol. Mae'r llawlyfr wedi cael ei ddiwygio i gynnwys adran benodol ar reoli COVID-19. Cawsom wybod bod y tîm yn derbyn diweddariadau rheolaidd dros e-bost i sicrhau bod yr holl staff yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau mewn arweiniad neu arfer.

Gwelsom dystiolaeth fod archwiliad glanhau wedi cael ei gwblhau'n ddiweddar gan y cwmni glanhau. Gwnaeth y rheolwr cofrestredig hefyd gadarnhau bod amserlenni glanhau wedi cynyddu a bod y defnydd o gyfarpar diogelu personol yn cael ei ddefnyddio lle bynnag y bo'n bosib, gyda stociau digonol yn cael eu caffael a'u monitro'n rheolaidd.

Cawsom wybod bod yr holl staff yn y clinig wedi derbyn hyfforddiant ar y defnydd cywir o gyfarpar diogelu personol, gan gynnwys gwisgo, dadwisgo, a gwaredu cyfarpar sydd wedi cael ei ddefnyddio mewn ffordd ddiogel.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Fel y soniwyd uchod, gwnaeth y rheolwr cofrestredig gadarnhau bod amserlenni glanhau wedi cynyddu. Fodd bynnag, nid oes unrhyw restrau gwirio glanhau yn cael eu cadw gan y glanhawyr.

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod rhestrau gwirio glanhau yn cael eu cwblhau i ddangos bod yr amgylchedd wedi cael ei lanhau'n effeithiol.

Cawsom wybod bod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal i asesu a rheoli'r risg o heintiau. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig ei fod yn monitro'r amgylchedd a safon hylendid bob dydd yn rheolaidd. Cawsom wybod bod unrhyw broblemau sy'n cael eu nodi ynghylch safonau hylendid yn cael eu cofnodi mewn llyfr nodiadau canolog a bod y glanhawyr yn cael gwybod amdanynt. Fodd bynnag, nid oes unrhyw wiriadau ffurfiol yn y fan a'r lle / archwiliadau ffurfiol yn cael eu cynnal na'u cofnodi.

Dylai'r rheolwr cofrestredig ymgymryd ag archwiliadau amgylcheddol a glanhau ffurfiol a rheolaidd a chofnodi eu canfyddiadau.

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gwnaeth AGIC gwestiynu cynrychiolwyr y gwasanaeth ynghylch sut, yng ngoleuni effaith COVID-19, y maent wedi addasu eu gwasanaeth. Gwnaethom archwilio a yw trefniadau rheoli'n sicrhau bod staff yn addas yn eu rolau ac a ydynt wedi'u hyfforddi'n briodol er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Datganiad o ddiben
- Canllaw i gleifion
- Adroddiad Rheoliad 28 (ymweliad unigolyn cyfrifol)
- Cofnodion hyfforddiant gorfodol i'r holl staff
- Dogfennau cynnal a chadw'r adeilad
- Llawlyfr staff sy'n cynnwys polisïau a gweithdrefnau amrywiol

**Derbyniwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Perchnogion Ystafelloedd Ymgynghori Cyncoed yw'r unigolion cyfrifol enwebedig a rheolwr y practis yw'r rheolwr cofrestredig.

Cawsom gopi o'r datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion, a oedd yn cynnwys gwybodaeth berthnasol am y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig.

Cawsom weld y llawlyfr staff, a oedd yn cynnwys yr holl bolisïau a gweithdrefnau yn y clinig. Gwelsom fod y rhain wedi cael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn a'u bod yn cynnwys dyddiad adolygu.

Cawsom y dogfennau cynnal a chadw amrywiol ar gyfer yr adeilad a'r cysylltiadau yr oedd gan y clinig. Gwelsom y tystysgrifau canlynol:

- Gwiriad gwifrau trydanol bob pum mlynedd
- Gwasanaethu nwy
- Adroddiad gwasanaethu'r lifft
- Adroddiad profion dyfeisiau cludadwy
- Adroddiad profi dŵr
- Tystysgrif archwilio'r tanc storio dŵr twym domestig heb awyrellau

- Adroddiad gwasanaethu'r diffoddwyr tân
- Tystysgrif archwilio a gwasanaethu canfod tân

Gwnaethom nodi bod angen trefnu gwasanaeth i'r diffoddwyr tân yn fuan. Fodd bynnag, cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod yr holl ddiffoddwyr tân wedi cael gwasanaeth yn ddiweddar a bod y clinig yn aros am y dystysgrif.

Gwelsom fod gan y clinig bolisi cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol penodol ar waith. Roedd hyn yn golygu bod y practis wedi ymrwymo i sicrhau bod pawb yn cael yr un cyfleoedd a'r un driniaeth deg. Cawsom wybod bod yr holl ystafelloedd yn y clinig wedi'u hadeiladu at y diben a'u bod wedi cael eu dylunio gan feddygon. Mae'r cyfleusterau yn y clinig yn hygyrch i unrhyw gleifion sydd ag anabledd corfforol. Nid oes unrhyw risiau na llethrau i'w dringo a gall cleifion gael mynediad i'r eiddo drwy ddrws awtomatig. Cawsom hefyd wybod bod cyfleuster dolen glyw ar gael i gefnogi defnyddwyr dolenni clyw.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Gwnaethom dderbyn ystadegau hyfforddiant gorfodol ar gyfer y tîm clinigol, a oedd yn dangos bod angen i fwyafrif y staff adnewyddu eu hyfforddiant. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym y rhoddir cynlluniau ar waith i'r staff adnewyddu'r holl hyfforddiant angenrheidiol dros y deng wythnos nesaf. Cawsom wybod nad oes system gyfredol ar waith i fonitro cydymffurfedd hyfforddiant cyffredinol. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig y bydd trefniadau'n cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod data hyfforddiant gorfodol yn cael ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau bod yr holl aelodau staff yn adnewyddu eu hyfforddiant mewn ffordd amserol.

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi diweddariadau i AGIC ar gyfraddau cwblhau hyfforddiant gorfodol o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd hwn. Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig hefyd sicrhau bod system ar waith i fonitro gofynion hyfforddiant staff.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig nad yw'r clinig wedi asesu na monitro ansawdd darpariaeth y gwasanaeth yn ffurfiol fel sy'n ofynnol dan Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011. Dylai'r rheolwr cofrestredig a'r unigolion cyfrifol wneud trefniadau i asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth yn y clinig a rhoi copi o'r adroddiad dilynol i AGIC.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod cyfarfodydd tîm ffurfiol wedi cael eu hatal drwy gydol y pandemig. Caiff unrhyw ddiweddariadau eraill a/neu newidiadau i bolisïau a gweithdrefnau eu hanfon at staff dros e-bost.

Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cyfarfodydd tîm ffurfiol yn cael eu hailddechrau.

# Beth nesaf?

Lle'r ydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a bod angen i'r gwasanaeth gymryd camau gweithredu i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella sy'n nodi'r manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylai wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn cael sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau gweithredu a nodwyd yn cael ei darparu i AGIC o fewn tri mis o'r gwiriad ansawdd

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella'n systemig ar draws meysydd eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynllun gwella, a dim ond adroddiad y crynodeb gwirio ansawdd gaiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Cynllun gwella

Lleoliad: Ystafelloedd Ymgynghori Cyncoed

Dyddiad y gweithgarwch: 14 Hydref 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Sylwer, disgwylir i'r holl gamau gweithredu gael eu cwblhau o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd ac mae'n rhaid i'r fersiwn derfynol o'r cynllun gwella gael ei chyflwyno drwy Objective Connect unwaith y bydd wedi'i chwblhau.

| Cyfeirnod | Yr hyn y mae angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Dylai'r rheolwr cofrestredig drefnu i'r offer a chyffuriau argyfwng gael eu gwirio'n wythnosol. | Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol: Safon 4 (Trefniadau Cynllunio at Argyfyngau) | Yn unol â'r cyngor clinigol diweddaraf gan Gyngor Dadebru'r DU, rydym bellach wedi gweithredu gwiriad dyddiol ac wythnosol o'n holl gyffuriau argyfwng i sicrhau eu bod o fewn eu dyddiad a'u bod ar gael. Caiff y gwiriadau wythnosol o'r holl gyffurfiau argyfwng eu gwneud gan ein staff clinigol bob dydd Gwener a chânt eu nodi yn y ffolder cyffuriau argyfwng sy'n cael ei chadw yn yr un cwpwrdd diogel lle cedwir y cyffuriau argyfwng. Y gwiriadau dyddiol fydd y diffibriliwr a'r silindr $O^2$ brys i sicrhau bod y ddau'n gweithio'n iawn. | Y rheolwr cofrestredig a chyfrifoldeb dirprwyedig dan oruchwyliaeth staff nyrsio | Yn ddyddiol ac yn wythnosol o 1 Tachwedd 2021 ac yn barhaus |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 2 | Dylai'r rheolwr cofrestredig drefnu i wasanaethau cyfieithu gael eu hyrwyddo. | Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol:<br>Safon 18 (Cyfathrebu'n Effeithiol) | Fel y cynghorwyd, rydym bellach wedi diweddaru'n hardal aros i arddangos arwyddion Iaith Gwaith sy'n hyrwyddo'r Gymraeg ac yn hyrwyddo'r staff sydd ar gael i siarad Cymraeg ar gais. Caiff y ffordd rydym yn hyrwyddo gwasanaethau cyfieithu ar ein gwefan ei diweddaru hefyd. | Rheolwr y swyddfa | Arwyddion ar waith o 1/11/21 - gwefan i gael ei diweddaru yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 14/11/21 |
| 3 | Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod rhestrau gwirio glanhau yn cael eu cwblhau i ddangos bod yr amgylchedd wedi cael ei lanhau'n effeithiol. | Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol:<br>Safon 12 (Yr Amgylchedd) | Ar ôl cael trafodaethau â'n cwmni glanhau dan gontract, rydym bellach wedi cynllunio a gweithredu ffurflen archwilio rhestr wirio wythnosol sy'n cynnwys man i ni ychwanegu sylwadau ar gyfer gwelliannau ynghylch sicrhau bod pob ardal benodol yn yr amgylchedd wedi cael ei glanhau'n effeithiol ac yn briodol. | Rheolwr cyfrifol | Yn cael ei weithredu o 1 Tachwedd 2021 ac yn barhaus |
| 4 | Dylai'r rheolwr cofrestredig ymgymryd ag archwiliadau amgylcheddol a glanhau ffurfiol a rheolaidd a chofnodi eu canfyddiadau. | Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol:<br>Safon 12 (Yr Amgylchedd) | Bydd y rhestrau gwirio wythnosol fel y cyfeirir atynt yn 3 uchod hefyd yn ffurfio rhan o archwiliadau glanhau amgylcheddol ffurfiol a rheolaidd newydd a fydd yn cael eu gwneud gan y rheolwr cofrestredig – a fydd hefyd yn cael eu hadolygu ynghyd â'r contractiwr glanhau fel rhan o'i ymrwymiad parhaus i ymgymryd ag archwiliadau glanhau | Rheolwr cyfrifol | Ar waith o 1 Tachwedd 2021: archwiliadau rhestr wirio glanhau wythnosol ac archwiliadau glanhau amgylcheddol ffurfiol bob |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | amgylcheddol bob chwarter. | | chwarter, gyda'r cyntaf ym mis Ionawr 2022 |
| 5 | Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi diweddariadau i AGIC ar gyfraddau cwblhau hyfforddiant gorfodol o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd hwn. Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig hefyd sicrhau bod system ar waith i fonitro gofynion hyfforddiant staff. | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011: Rheoliad 20<br><br>Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol: Safon 125 (Cynllunio'r Gweithlu, Hyfforddiant a Datblygiad Sefydliadol) | Fel y soniwyd amdano eisoes, rydym yn cydnabod, ers COVID-19, bod diweddariadau ar gyfer hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus gorfodol i staff wedi eu colli a'u bod bellach yn hwyr. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, bydd holl staff Ystafelloedd Ymgynghori Cyncoed, gan gynnwys unigolion cyfrifol a'r rheolwr cyfrifol, yn ymgymryd â'r 12 modiwl hyfforddiant e-ddysgu statudol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus a'u cwblhau (cymeradwywyd gan GIG Cymru). Mae manylion y rhain eisoes wedi cael eu nodi. | Yr holl staff sy'n cael eu goruchwylio gan y rheolwr cofrestredig | Yn dechrau ar 14 Hydref ac yn cael eu cwblhau erbyn 31/12/21 a'u hadolygu o leiaf bob dwy flynedd wedi hynny |
| 6 | Dylai'r rheolwr cofrestredig a'r unigolion cyfrifol wneud trefniadau i asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth yn y clinig a rhoi copi o'r adroddiad dilynol i AGIC. | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011: Rheoliad 28 | Cymerwyd y cam gweithredu hwn gan yr unigolyn cyfrifol ddydd Gwener 28 Hydref 2021 ac mae adroddiad adran 28 wedi'i lofnodi sy'n nodi'r canfyddiadau wedi cael ei ddarparu ar wahân i AGIC gan y rheolwr cyfrifol. | Unigolyn cyfrifol | Cwblhawyd a chyflwynwyd ar 2/11/21 |
| 7 | Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cyfarfodydd tîm ffurfiol yn cael eu | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011: Rheoliad 20 | Er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â safonau o ran cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygu, rydym yn bwriadu | Y rheolwr cofrestredig i drefnu cyfarfodydd tîm a | Cynhelir y cyfarfod cyntaf ddydd Iau 4 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | hailddechrau. | Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol:<br>Safon 125 (Cynllunio'r Gweithlu, Hyfforddiant a Datblygiad Sefydliadol) | ailgyflwyno cyfarfodydd tîm misol y bydd gofyn i'r holl aelodau staff eu mynychu. Caiff agenda'r cyfarfodydd hyn ei llunio ymlaen llaw, byddant yn cael eu cofnodi, a bydd y cofnodion yn cael eu dosbarthu i'r staff erbyn diwedd y dydd ar y diwrnod hwnnw. Caiff copïau o gofnodion eu cadw a byddant ar gael i'w harchwilio maes o law yn ôl y gofyn. | gwaith cymryd cofnodion parhaus | Tachwedd ac yn fisol wedi hynny |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Enw: David Shand

Dyddiad: 02/11/2021